# Trosolwg o'r Wers: Niwed Cudd

| LLINYN | Diogelwch | Hyd y Wers: Amrywiol hyd at 60 munud, trwy gytundeb staff y ganolfan, yn ddibynnol ar p'un a gaiff y wers ei chyflwyno'n gyfan, neu mewn rhannau ac ar sut y mae'r disgyblion yn ymateb |
|---|---|---|
| CYFNOD ALLWEDDOL | CA3 | |
| GWERS | Niwed Cudd | |

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn sicrhau bod hawliau plant a phobl ifanc wedi eu hamddiffyn rhag gamdriniaeth a cham-fanteisio. Mae pob plentyn a pherson ifanc o bosibl mewn perygl o ddioddef cam-drin rhywiol. Mae gan ysgolion rôl ganolog i'w chwarae mewn lleihau'r perygl hwn. Drwy archwilio nodweddion perthynas ddiogel ac iach gall swyddogion helpu dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i adnabod risgiau posibl, aros yn ddiogel a cheisio cymorth os oes ei angen.

Dylai'r wers Perthnasoedd Diogelach gael eu cyflwyno fel rhan o ABCh a rhaglen addysg rhyw a chydberthynas yr ysgol. Dylai fod yn gyson â pholisi addysg rhyw yr ysgol a'r fframwaith gwerthoedd cytunedig ar gyfer addysg rhyw a chydberthynas. Bydd angen i chi ystyried a yw'r wers yn briodol ar gyfer anghenion eich dysgwyr o ran eu oedran, aeddfedrwydd, yr iaith/ delweddau, a'r ddealltwriaeth sydd ei angen. Yn ogystal, dylai'r athro fod yn bresennol drwy gydol yr holl wers.

Gellir gael cyngor pellach ar addysgu materion sensitif ar y wefan ABCh drwy ddilyn y linc i 'Dysgu Materion Sensitif' ar http://wales.gov.uk/psesub/home/holisticpse/delivery/teachingsensitiveissues/?skip=1&lang=cy

## NOD

- Adnabod a datblygu perthnasoedd diogel gydag eraill

## FFRAMWAITH ADDYSG BERSONOL A CHYMDEITHASOL 2008

- I ddefnyddio gwybodaeth flaenorol i esbonio'r cysylltiadau rhwng achos ac effaith. S (DM)
- I ystyried safbwyntiau pobl eraill er mwyn llunio barn a gwneud penderfyniadau a dewisiadau gwybodus yn effeithiol. S (DM)
- I wrando'n graff mewn ystod o sefyllfaoedd ac ymateb yn briodol. S (DC)
- I ddechrau trafod ymddygiad mewn cydberthnasau personol. S (GGE)
- I ddatblygu parch atynt hwy eu hunain ac at bobl eraill. Y (DW)
- I ddeall nodweddion perthnasoedd diogel a'r rhai a all arwain at gamdriniaeth. Y (ILlE)

## LLYTHRENNEDD YN Y CWRICWLWM

Mae'r wers hon yn cynnwys yr agweddau canlynol o'r fframwaith rhifedd/llythrennedd:

- Siarad Ll(Ll)s
- Gwrando Ll(Ll)d
- Cydweithio a thrafod Ll(Ll)c&th
- Darllen a deall Ll(D)d&d
- Ymateb a dadansoddi Ll(D)y&d

## AMCANION Y WERS

- Dod i ddeall yr hyn sy'n gwneud perthynas ddiogel.
- Dynodi a deall y term cam-drin domestig.
- Codi ymwybyddiaeth o asiantaethau cefnogi sydd ar gael ar gyfer y dioddefwyr a'r tramgwyddwyr.

## GEIRIAU ALLWEDDOL

cam-drin domestig, seicolegol, corfforol, emosiynol, ariannol, rhywiol

## ADNODDAU

- Geiriau allweddol
- Taflen waith nodweddion
- PPT Niwed Cudd
- Diffiniad cam-drin domestig
- DVD – Niwed Cudd
- Bwrdd continum amser (1 set i bob grŵp)
- Set o ddatganiadau (1 set i bob grŵp)
- Set o 8 Cardiau senario A4
- Cardiau prompt
- Gwybodaeth Cam-Drin Domestig i'r SHCY

## GWEITHGAREDDAU

### CYFLWYNAID

- Sicrhau fod y cysylltiad â'r wers flaenorol yn cael ei esbonio.
- Cytuno ar y Rheolau Aur.
- Amlinellu'n glir cytundeb y dosbarth ynglŷn â chyfrinachedd.
- Esbonio ac arddangos yr amcanion a'r geiriau allweddol.
- Fel gweithgaredd dosbarth trafodwch gyda'r disgyblion y geiriau a ddefnyddir i ddisgrifio perthnasoedd positif.
- Adborth fel dosbarth.

### PRIF WEITHGAREDDAU

- Trafod y diffiniad o gam-drin domestig.
- Chwarae'r DVD
- Gan ddefnyddio'r PPT, archwilio'r 5 categori o gamdriniaeth domestig ac adnabod esiamplau oddi ar y DVD.
- Trafod yr arwyddion rhybudd a'r pwyntiau perygl yn y DVD.
- Gweithgaredd grŵp – gweithgaredd gwneud y dewis positif
- Dosbarthu cardiau senario/ gweithredu i benderfynu ar y llwybr gweithredu mwyaf priodol i ddelio â'r sefyllfa. Codi ymwybyddiaeth o'r asiantaethau cefnogi a'r cymorth sydd ar gael.

### ADOLYGU

- Beth yw nodweddion perthynas positif?
- Beth yw cam-drin domestig?
- Beth yw'r gwahanol fathau o gam-drin domestig?
- A yw'r plant yn deall ac yn derbyn nad yw'r dioddefwyr ar fai?
- Ydych chi'n gwybod ble i fynd i gael cymorth?



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

- Dosbarthwch y cardiau melyn llinell gymorth i'r disgyblion.

## GWEITHGAREDDAU DILYNOL ATHRAWON

Gweler gwefan www.schoolbeat.org am weithgareddau dilynol ac adnoddau athrawon.